# Bartimeus yn cael ei olwg

**Marc 10: 46-52**

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| | Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Marc 10: 46-52 |  | |
| 1 | Roedd tyrfa fawr yn dilyn Iesu a'i ddisgyblion allan o dref Jericho, a dyma nhw'n pasio heibio dyn dall oedd yn cardota ar ochr y ffordd — Bartimeus oedd enw'r dyn. |  | |
| 2 | Am ei fod yn ddall nid oedd yn gallu gweithio. Roedd yn gorfod cardota am arian. |  | |
| 3 | Pan ddeallodd fod Iesu o Nasareth yn cerdded heibio credodd y byddai'n gallu ei wella. |  | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Dechreuodd Bartimeus weiddi, “Iesu! Fab Dafydd! Helpa fi!” |  |
| 5 | “Cau dy geg!” meddai rhai o'r bobl wrtho. Ond yn lle hynny dechreuodd weiddi'n uwch fyth, “Iesu! Fab Dafydd! Helpa fi!” |  |
| 6 | Dyma Iesu'n stopio, “Dwedwch wrtho am ddod yma,” meddai. |  |
| 7 | Felly dyma nhw'n galw'r dyn dall, “Hei! Cod dy galon! Mae'n galw amdanat ti. Tyrd!” Felly taflodd Bartimeus ei glogyn i ffwrdd, neidio ar ei draed a mynd at Iesu. |  |
| 8 | Dyma Iesu'n gofyn iddo, “Beth ga i wneud i ti?” “Rabbwni,” atebodd y dyn dall, “Dw i eisiau gallu gweld.” |  |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Yna dwedodd Iesu, “Dos, am i ti gredu rwyt wedi dy iacháu.” |  |
| 10 | Yn sydyn roedd Bartimeus yn gweld. |  |
| 11 | Roedd Bartimeus wrth ei fodd. |  |
| 12 | A dilynodd Iesu ar hyd y ffordd. |  |
| 13 | Cyfieithwyd gan www.beibl.net |   |